Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gymraeg Casnewydd

## Dyddiad yr arolygiad: **Tachwedd 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg Casnewydd yn gymuned gynhwysol gyda phwyslais cryf ar les a datblygiad disgyblion, staff a'r gymuned ehangach. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir i sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu diddorol mewn amgylchedd dysgu ysgogol a chynnes. Mae ymdeimlad cryf o deulu a pherthyn i gymuned wedi ei sefydlu yn yr ysgol. Mae'r tîm gweithgar o athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn sicrhau darpariaeth gyfoethog mewn cyd-destun cynhwysol a Chymreig.

Mae'r staff yn fodelau iaith effeithiol ac maent yn hyrwyddo medrau llafar y disgyblion yn gyson. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llafar o'u mannau cychwyn. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau'n effeithiol ar draws yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn datblygu'n gadarn. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd, digidol ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm ysgogol a chynhwysol sydd yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r byd a'u hardal leol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu a pharch tuag at eraill. Ar y cyfan, mae athrawon yn sicrhau rhediad bwriadus i wersi ac yn defnyddio ystod o adnoddau gweledol i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae hyn yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da. Er hynny, ar adegau, mae tueddiad y staff i or-arwain yn cyfyngu ar allu disgyblion i weithio'n annibynnol a gwneud dewisiadau am eu dysgu.

Mae arweinwyr yn datblygu tîm effeithiol o staff sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo lles disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio'n hynod effeithiol â rhieni ac asiantaethau allanol ac maent yn adnabod anghenion y disgyblion a'u cymuned yn arbennig o dda. Mae'r ddarpariaeth lles yn nodwedd nodedig o'r ysgol.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm**

**A2 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i ddysgu a chyflwyno eu gwaith**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhelliad o’r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2025

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.